# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MERCHER, 22AIN TACHWEDD, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodri jones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**John Brynmor Hughes**
**Gareth Tudor Jones**
**Gareth Williams**
**Gruffydd Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**
**FWAG Cymru.**

# R H A G L E N


**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitem sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

**7. YR AWYR DYWYLL** 9 - 10

Cyflwyno gwybodaeth ar ymgyrch statws 'Awyr Dywyll' ardal Aberdaron.

**8. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** 11 - 13

Cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau am sefyllfa presennol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

**9. PROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN** 14 - 15

Cyflwyno Gwybodaeth am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn.

**10. MATERION CENEDLAETHOL** 16 - 17

Cyflwyno Gwybodaeth ar faterion Cenedlaethol.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 29/03/2023

**Yn bresennol**:
T. Victor Jones (Cadeirydd) (Cyngor Cymuned Llanbedrog)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Gareth Williams, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Gruffydd Williams ac Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd ag Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Sianelen Plemming (Cyngor Cymuned Pistyll), Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Andrew Davidson (Prif Archeolegydd - Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd) a Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog AHNE Llŷn), Morus Llwyd Dafydd (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Kevin Roberts (Warden Cefn Gwlad – AHNE Llŷn) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan Robert Parkinson (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron), Einir Wyn (Cyngor Cymuned Llanengan), Euros Jones (FWAG Cymru), Lea Elin Connelly (Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth), Sian Parry (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a'r Cynghorydd Dafydd Davies.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

## 3. MATERION BRYS

Atgoffwyd yr aelodau bod 'Llygad Llŷn', newyddlen flynyddol yr AHNE yn cael ei gyhoeddi dros yr wythnosau nesaf a gofynnwyd am gymorth yr aelodau i godi ymwybyddiaeth amdano.

Hysbyswyd yr aelodau bod Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad) yn ymddeol mewn rhai wythnosau. Cytunwyd i yrru diolchiadau aelodau'r pwyllgor ato cyn ei ymddeoliad.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau. Eglurwyd bod cynllun gweithredu adfer natur yn weithredol ar draws awdurdodau lleol Cymru a bod ymgynghorydd wedi cael ei benodi er mwyn cynorthwyo i baratoi'r cynllun yng Ngwynedd yn unol â dyletswydd y Cyngor.

Adroddwyd bod cyfnod ymgynghorol y cynllun yn dechrau dros yr wythnosau nesaf ac anogir ir aelodau gwblhau'r ymgynghoriad yn ogystal ag annog unigolion o fewn eu cymunedau i'w gwblhau.

Cadarnhawyd byddai'r holiadur ymgynghorol hwn hefyd yn cael ei ddosbarthu yn ystod Sioe Nefyn a gynhelir ar y 1af o Fai eleni er mwyn derbyn barn y cyhoedd ar yr argyfwng byd natur o fewn Gwynedd ac o fewn yr AHNE.

Rhannwyd nifer o safbwyntiau gwahanol am flaenoriaethau a phrosesau adfer natur a rhoddwyd sylw i amrywiol syniadau. Pwysleisiwyd yr angen i'r Aelodau gwblhau'r holiadur ymgynghorol er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried ar y cyd gyda safbwyntiau'r cyhoedd.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad gan nodi sylwadau a godwyd yn y drafodaeth.**

## 6. CYNLLUN STRATEGOL AR GYFER YR ECONOMI YMWELD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau. Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn creu cynllun strategol i wireddu gweledigaeth ac egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035.

Adroddwyd bod effeithiau twristiaeth o ganlyniad i Pandemig Covid-19 wedi cynyddu'r effaith ar ddiwylliant ac yr amgylchedd. Ystyriwyd bod effeithiau pryderus i'r iaith, trafnidiaeth ac economi wledig yn ogystal â thensiynau mewn rhai ardaloedd oherwydd niferoedd digynsail o ymwelwyr.

Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo'r cynllun strategol yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad o'r pryderon ar y cyd gyda Parc Cenedlaethol Eryri. Eglurwyd mai'r weledigaeth a osodwyd ar gyfer Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri yw 'Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri'.

Manylwyd ar egwyddorion ac amcanion y cynllun sef:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth.
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd.
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais.

Cadarnhawyd bod copi llawn o'r cynllun strategol i'w weld ar wefan y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad am rôl yr AHNE wrth weithredu'r cynllun, cadarnhaodd Swyddog AHNE Llŷn bod yr uned wedi bod yn rhan o grŵp tasg a oedd yn cydweithio i i'w baratoi. Er mwyn cael eglurder ar rôl yr AHNE wrth weithredu'r cynllun, bydd swyddogion yn trafod gyda'r Tîm Twristiaeth ac yna adrodd yn ôl i'r Aelodau.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 7. PROSIECT TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau. Eglurwyd mai gwybodaeth am brosiectau cyfalaf yn unig sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac bod nhw wedi cael eu ariannu drwy gynllun Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Eglurwyd bod Tirwedd Dynodedig Cymru wedi cyflwyno prosiectau ar gyfer y cyfnod 2022-25. Manylwyd bod rhain wedi cael eu cyflwyno o fewn y themâu a osodwyd sef: Bioamrywiaeth ac adfer natur, Dad-garboneiddio, Cymunedau gwydn a gwyrdd a Thwristiaeth Gynaliadwy. Cadarnhawyd mai'r prosiectau ar gyfer AHNE Llŷn oedd:

- Cylchdaith Gyrn Goch
- Fan drydan Warden yr AHNE
- Tir Comin Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho a Horeb/Mynytho
- Canolfan Llithfaen
- Gwelliannau Mynediad i safleoedd Mynydd Tir y Cwmwd, Porth Ysgo a Phorthor ar y cyd gyda Llwybr Arfordir Cymru.
- Terfynau Traddodiadol (waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd)
- Yr Awyr Dywyll

Soniwyd bod prosiectau eraill wedi cael eu datblygu drwy arian a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Trafodwyd gwaith cadarnhaol gyda gwirfoddolwyr yn ddiweddar i ail-sefydlu llwybrau a chodi sbwriel.

Nodwyd bod swyddogion yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r AHNE megis drwy rannu diweddariadau ar y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchgrawn 'Llygad Llŷn'.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 8. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau. Adroddwyd bod £100,000 yn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23 ac llwyddwyd i ddyrannu £92,149.52 ohono i brosiectau teilwng. Eglurwyd bod hyn yn arwain at tanwariant bychan o £7,850.48.

Cadarnhawyd mai'r prosiectau a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf yw:

- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Bws Fflecsi Llŷn
- Giât Mynwent Llandegwnning
- Gŵyl R S Thomas
- Eglwys Newydd Aberdaron
- Arddangosfa Sarn
- Clwb Hwylio Aberdaron
- Cae Chwarae Llithfaen
- Ffenestri Hafod Ceiri
- Arolwg Archeolegol Coedlan Carl

- Maes Parcio Aberdesach
- Melin Daron
- Sied Plas Carmel
- Hysbysfyrddau Cymuned Aberdaron
- Cyflenwyr Dosbarthu Bagiau Baw Cŵn
- Neuadd Abersoch.

Cadarnhawyd bod cyllideb i ariannu prosiectau dros gyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn (rhwng 2023-25), os oes angen, gan bod cyllid o £100,000 ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac £100,000 arall wedi ei ganiatáu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Nodwyd bod canllawiau mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac oherwydd hyn yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd â themâu 'adfer natur' a 'dad-garboneiddio'.

Pwysleisiwyd bod y gwaith o hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio am grant o'r Gronfa Cynaliadwy eisoes wedi dechrau ac anogwyd yr aelodau i rannu gwybodaeth am y cyfleoedd ymhellach.

Rhoddwyd cyfle i aelodau Panel y Gronfa Cynaliadwy i sefyll i lawr er mwyn rhoi cyfle i aelodau eraill o'r Cyd-bwyllgor os dymunent.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan yr Aelodau:

- Bu i gynrychiolwyr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a Chyngor Cymuned Clynnog Fawr gynnig sefyll i lawr o Banel y Gronfa Cynaliadwy os oedd unrhyw un yn awyddus i fod yn rhan ohono.
- Ystyriwyd os oes modd denu sefydliadau gwahanol i fod yn aelodau o'r Panel er mwyn sicrhau trawstoriad eang wrth ystyried ceisiadau.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod nifer o sefydliadau yn rhan o Aelodaeth y Cyd-bwyllgor hwn. Atgoffwyd bod aelodaeth y Panel yn aelodau'r Cyd-bwyllgor ac felly bydd unrhyw drawstoriad yn deillio o sefydliadau sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor.
- Diolchwyd i'r ddau gynrychiolydd am gynnig sefyll i lawr. Penderfynwyd ail-ymweld ag aelodaeth y Panel yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor er mwyn cynnal y drafodaeth ble mae mwy o'r cynrychiolwyr yn bresennol.

**PENDERFYNIAD**
**a) Derbyn yr adroddiad ar Aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol.**
**b) Ystyried aelodaeth Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.**

## 9. DYNODIAD AWYR DYWYLL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn  gan nodi bod Uned AHNE wedi bod yn gweithio ers peth amser i ymgeisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer Llŷn. Eglurwyd bod  casglu data yn sialens fawr gan bod ardal AHNE Llŷn yn eang iawn. Manylwyd bod yr uned yn canolbwyntio ar ardal Pen draw Llŷn ar drwyn y penrhyn er mwyn derbyn y dynodiad Awyr Dywyll Rhyngwladol yn hytrach na'r ardal gyfan.

Cadarnhawyd bod Ynys Enlli wedi ei ddynodi'n Noddfa Awyr Dywyll ym mis Chwefror Eleni ac mai'r fan honno yw'r cyntaf yn Ewrop i dderbyn y dynodiad. Adroddwyd bod

newyddion o'r dynodiad yma wedi codi ymwybyddiaeth pobl am yr ynys ac ardal Llŷn ac gobeithir byddai dynodiad Awyr Dywyll yn fuddiol i ardal Pen draw Llŷn yn yr un modd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan yr Aelodau:

- Holiwyd os yw'r mater hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Aberdaron.
- Manylwyd ar faterion eraill i'w hystyried megis diogelwch a'r angen i gael goleuadau penodo mewn rhai mannau o'r ardal.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y swyddogion yn gobeithio derbyn cefnogaeth y Cyd-bwyllgor i weithio tuag at gwblhau cais am Ddynodiad Awyr Dywyll. Cadarnhawyd nad oes unrhyw waith wedi cael ei gwblhau i weithio tuag at y dynodiad hwn ar hyn o bryd na unrhyw gais wedi cael ei gwblhau. Manylwyd bod ymgynghori gyda'r gymuned yn elfen bwysig o'r gwaith ac felly bydd trafodaethau yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Aberdaron yn allweddol i weld os bydd y gymuned yn cefnogi'r bwriad i wneud cais am ddynodiad neu beidio.
- Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch ym mhob sefyllfa. Trafodwyd bod Prosiect Nos yn cydweithio yn dda gydag amryw o fusnesau a sefydliadau i addysgu am lygredd golau a'r dulliau i'w leihau gan barhau i oleuo lleoliadau yn effeithiol.
- Ymhelaethwyd bod cydweithio clos yn digwydd rhwng yr Uned AHNE a swyddogion cynllunio Cyngor Gwynedd er mwyn gosod amodau sy'n ymwneud â goleuo ar geisiadau newydd pan fo'n addas. Eglurwyd er bod yr amodau hyn yn cael eu gosod mae diffygion recriwtio diweddar wedi arwain at lai o swyddogion gorfodaeth ac yn golygu bod rhai problemau yn parhau i godi.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad a chefnogi bwriad yr Uned AHNE i weithio tuag at wneud cais am ddynodiad Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn, gyda ymgynghoriaeth â chymunedau Pen draw Llŷn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.05yh

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 22ain 2023 |
| **TEITL** | Yr Awyr Dywyll |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiect AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Trafodwyd dynodiad Awyr Dywyll yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor Ymghyngorol a gynhaliwyd yn mis Mawrth y flwyddyn hon. Bryd hynny eglurwyd fod yr Uned AHNE yn awr yn awyddus i ganolbwyntio ar ddynodi rhan o'r ardal, sef ardal Aberdaron, yn hytrach na'r holl AHNE, fel ardal o Awyr Dywyll Rhyngwladol.

1.2 Penderfynwyd hyn oherwydd fod ardal yr AHNE yn ei gyfanrwydd yn eithaf eang ac fod cryn amrywiaeth o ran tywyllwch nos ayb a'r ffaith fod Ynys Enlli bellach wedi derbyn statws Noddfa Awyr Dywyll. Eglurwyd mai'r bwriad yw i'r Uned AHNE, mewn cydweithrediad gyda Prosiect NOS, ymgeisio am statws Awyr Dywyll i ardal Cyngor Cymuned Aberdaron.

1.3 Cytunwyd yn y cyfarfod i gefnogi symund ymlaen efo'r broses o wneud cais ar gyfer yr ardal hon os oedd Cyngor Cymuned Aberdaron yn gefnogol i'r bwriad.

## 2.0 STATWS AWYR DYWYLL I ARDAL CYMUNED ABERDARON

2.1 Aeth y Swyddog AHNE draw i gyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron yn mis Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth am y dynodiad Awyr Dywyll, y broses o wneud cais ac ymateb i unrhyw gwestiynnau. Yn dilyn trafod y mater yng nghyfarfod mis Medi penderfynnodd y Cyngor Cymuned i gefnogi y bwriad.

2.2 Yn awr, mewn cydweithrediad gyda prosiect NOS, bydd yr Uned AHNE yn symud ymlaen i ddechrau'r broses o lunio cais am ddynodiad Awyr Dywyll i ardal Cymuned Aberdaron. Fel y nodwyd yn flaenorol Y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Yn

ddiweddar gyda llaw mae'r sefydliad yma wedi newid ei enw i *Dark Sky International*.

2.3 Mae gwahanol fathau o ddynodiadau Awyr Dywyll yn bodoli – yn cynnwys statws Parc, Noddfa, Gwarchodfa a Chymuned. Mae'n ymddnangos mai Cymuned Awyr Dywyll fyddai'r dynodiad mwyaf addas ar gyfer ardal Aberdaron.

## 3.0 MONITRO

3.1 Rhan bwysig o'r broses o ymgeisio am unrhyw statws Awyr Dywyll yw monitro pa mor dywyll yw'r nos mewn gwahanol rannau o'r ardal. Ar gyfer y broses hon defnyddir teclyn o'r enw *Sky Quality Meter ac* mae angen gwneud y mesuriadau mewn mannau pendol unwaith, neu os yn bosibl dwywaith, bob blwyddyn. Ar gyfer gwneud y mesuriadau rhaid dewis amseroedd pan nad oes lleuad a phan mae'r awyr yn glir. Anelir i wneud y mesuriadau eleni yn ystod Tachwedd a Rhagfyr.

## 4.0 PROSIECT AWYR DYWYLL AR Y CYD.

4.1 Mae AHNE Llŷn hefyd yn rhan o brosiect Awyr Dywyll ar y cyd gyda 4 AHNE arall Cymru a'r 3 Parc Cenedlaethol (ar elwir Y Tirweddau Dynodedig) sy'n cael ei ariannu gan Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru).

4.2 Fel rhan o'r prosiect hwn mae cwmni arbenigol RIDGE wedi cynnal arolygon o awyr y nos am mannau sydd gyda goleuadau llachar, ymwthiol ym mhob un o dirweddau dynodedig Cymru yn cynnwys Penrhyn Llŷn.

4.3 Y bwriad yn awyr yw cydweithio hefo rhai o'r lleoliadau hyn i gynnig cymorth a chefnogaeth ariannol i addasau systemau goleuo er eu gwneud yn fwy ystyriol o'r Awyr Dywyll.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 22ain 2023 |
| **TEITL** | Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

## 2.0 GWARIANT Y FLWYDDYN ARIANNOL YMA 2023/24

2.1 Roedd **£100,000** ar gael ar gyfer Gronfa y Ddatblygu Cynaliadwy ar ddechrau y flwyddyn ariannol yma (2023/24) ac mae **£4,833** yn weddill ac angen ei glustnodi ai hawlio cyn mis **Mawrth 2024.**

2.2 Dyma rhestr o'r prosiectau sydd wedi eu cefnogi hyd yn hyn:

| | | |
|---|---|---|
| CDC 23.1 | Amgueddfa Forwrol Llŷn | £5,895 |
| CDC 23.2 | Bws Fflecsi Llŷn | £30,000 |
| CDC 23.3 | Balchder a chelf Llŷn | £2,000 |
| CDC 23.4 | Storws Enlli | £30,000 |
| CDC 22.5 | Diogelu enwau Llanengan | £8,371 |
| CDC 22.6 | Llyfrgell Pethau Llŷn | £1,394 |
| CDC 22.7 | Gŵyl R S Thomas | £1,271 |
| CDC 22.8 | Arddangosfa Melinau Gwlân Llŷn | £2,000 |
| CDC 22.11 | Arddangosfa Berwyn Jones | £1,766 |
| CDC 22.12 | Cae Chwarae Rhydyclafdy | £1,000 |
| CDC 22.13 | Menter Raber | £1,470 |

**Cyfanswm: £95,167**

## 3.0 STORWS ENLLI A BWS FFLECSI

3.1 Yn wahanol i'r arfer cafodd swm sylweddol o'r Gronfa ei neilltuo ar gyfer dau brosiect, £30,000 ar gyfer adnewyddu Storws Enlli a £30,000 ar gyfer Bws Fflecsi Llŷn.

3.2 Mae’r ddau brosiect wedi bod yn llwyddiant, mae’r Storws wedi ei gwblhau bellach ag mewn safon ardderchog a hynny gan gynnal ei gymeriad gwreiddiol. Mae’r gwasanaeth Fflecsi hefyd wedi bod yn lwyddiant eleni gyda mwy o gwsmeriaid a mwy o deithiau nag a fu yn y gorffennol.

## 4.0 Y GRONFA FLWYDDYN NESAF

4.1 Mae cadarnhad fod cyllid o **£100,000** ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2024/25).

4.2 Yn y canllawiau mwyaf diweddar mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd ar themâu Adfer Natur, a Dad-garboneiddio.

4.3 Anogir i chi fel aelodau i rannu y neges fod **£100,000** ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ag i gysylltu os y gwyddoch chi am brosiectau cymwys. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan yr AHNE.

## 5.0 PANEL GRANTIAU

5.1 Dyma aelodaeth bresennol y panel:

- Y Cynghorydd Angela Russell
- Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig)
- T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog)
- Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor)
- Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog)
- Linda Ashton (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Cynghorydd Gruffydd Williams
- Cynghorydd, Gareth Williams
- Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr).

5.2 Yn ystod y cyfarfod diwethaf, trafodwyd aelodaeth y panel grantiau. Nododd Eirian Allport a Noel Davey eu bod nhw yn barod i sefyll i lawr o fod yn aelodau o’r panel grantiau er mwyn rhoi lle i unigolion eraill ar y panel. Bryd hynny ni ddaeth enwau ymlaen. Oes aelod presennol o’r cydbwyllgor ymgynghorol yn dymuno ymuno ar panel grantiau?

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Derbyn y wybodaeth uchod.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 22ain 2023 |
| **TEITL** | Prosiectau Cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC).

1.2 Mae prosiectau TCLC yn cwmpasu tair blynedd (2022-25) ac rydym bellach felly yn yr ail flwyddyn. Adroddwyd ar brosiectau y flwyddyn gyntaf i'r cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn mis Mawrth o'r flwyddyn hon.

## 2.0 THEMÂU Y PROSIECTAU CYFALAF

2.1 Gosodwyd themâu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf oedd yn rhan o gynllun TCLC sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

## 3.0 PROSIECTAU CYFALAF TCLC LLŶN 2023-24

3.1 **Adnewyddu grisiau Porth Ysgo -** mae'r grisiau yma ar lwybr cyhoeddus yn arwain i lawr i draeth bychan Porth Ysgo ar arfordir deheuol Llŷn. Fe'u gosodwyd yn wreiddiol tua 30 mlynedd yn ôl ond erbyn hyn mae eu cyflwr wedi dirywio. Bydd y prosiect yn cynnwys tynnu y grisiau pren gwreiddiol a gosod grisiau newydd gan ddefnyddio coed lleol wedi eu trin. Mae'r llwybr wedi ei gau yn ffurfiol am gyfnod er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau (gwaith i ddechrau yn fuan).

3.2 **Tiroedd Comin -** mae'r gwaith ar welliannau i diroedd comin yr AHNE eisoes wedi dechrau llynedd – mae hwn yn brosiect dros gyfnod o dair mlynedd. Y tiroedd comin o dan sylw yw Mynythno, Horeb, a Rhos Botwnnog. Mae'r gwelliannau yn cynnwys gwaith barbio a chlirio, gwella mynediad, trin rhywogaethau ymledol a gosod byrddau gwybodaeth.

3.3 **Coed cynhenid** – dyma brosiect dwy flynedd a'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol yma oedd adnabod safleoedd addas i blannu coed cynhenid o fewn yr AHNE drwy gynnal ymchwil ac ymgynghoriadau. Yn dilyn hyn bwriedir plannu coed yn ystod y gaeaf nesaf.

3.4 **Rhywogaethau ymledol estron -** mae planhigion estron megis jac y neidiwr a changlwm tsapanaeaidd yn broblem gynyddol ar draws Llŷn, gyda sgil-effeithiau difrifol ar fioamrywiaeth. Bwriad y prosiect yn y flwyddyn hon oedd adnabod lleoliadau ar gyfer eu trin a pheilota gwahanol driniaethau. Bydd mwy o weithredu uniongyrchiol yn erbyn y planhigion yn y flwyddyn arainnol nesaf.

3.5 **Y Ganolfan Llithfaen** – mae hwn yn brosiect mwy sylweddol na'r gweddill ar gyfer adfer ac uwchraddio Y Ganolfan yn Llithfaen. Mae'r Ganolfan wedi bod ar gau ers blynyddoedd bellach oherwydd problemau efo cyflwr yr adeilad. Oherwydd cost sylweddol y gwaith bu raid ymgeisio am arian ychwanegol (o Gronfa Rhannu'r Budd). Ar hyn po bryd mae'r gwaith allan i dendr.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 22ain 2023 |
| **TEITL** | Materion Cenedlaethol |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ddau fater cenedlaethol a fydd o ddiddordeb i aelodau. Yn gyntaf mae Llywodraeth Cymru yn trefnu hyfforddiant i aelodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Cydbwyllgorau AHNE ac yn ail mae trefniadau ar y gweill i newid enw gweithredol a brandio yr AHNE.

## 2.0 HYFFORDDIANT AELODAU

2.1 Yn ddiweddar anfonwyd llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS i sylw Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol a Chadeiryddion y Parciau a'r Cydbwyllgorau AHNE.

2.2 Yn y lythyr mae'r Gweinidog yn nodi fod y Tirweddau Dynodedig yn bwysig iawn i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran yr argyfwng natur a hinsawdd. Eir ymlaen i ddweud ei bod yn bwysig fod gan arweinwyr ac aelodau'r sefydliadau hyn yr wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gyfer y gwaith. Ar sail hyn nodir fod swyddogion yn y Llywodraeth wedi datblygu pecyn hyfforddiant ar-lein ar gyfer aelodau y Parciau Cenedlaethol a'r Cydbwyllgorau AHNE.

2.3 Mae 2 faes hyfforddiant yn berthnasol i aelodau'r Cydbwyllgor AHNE:

- Cyflwyniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

2.4 Bydd yr hyfforddiant yma yn cael ei gynnal ar-lein yn ystod y Gaeaf hwn ac bydd bob uned yn para tua 2 awr. Y bwriad yw trefnu cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor hwn i gynnal yr hyfforddiant. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei anfon maes o law.

## 3.0 AIL FRANDIO

3.1 Mae’r term “Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol” wedi ei gynnwys yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Pasiwyd y ddeddf yma gan y Llwyodraeth Lafur ar ôl y rhyfel er mwyn gwarchod yr ardaloedd arbennig yma ac yn achos y Parciau, hyrwyddo defnydd hamdden.

3.2 Dros y blynyddoedd mae cryn drafodaeth wedi bod am yr enw, yn rhannol oherwydd ei fod yn deitl hir a disgrifiadol ac yn ail oherwydd nad yw’n cynnwys y gair “cenedlaethol” ac felly ddim yn cario yr un statws a’r Parciau rhywsut.

3.3 Yn ddiweddar mae adolygiad o’r Parciau Cenedlaethol a’r AHNE wedi ei gynnal yn Lloger dan arweiniad y newyddiadurwr Julian Glover. Daeth yr adolygiad hwn i’r casgliad fod achos cryf dros newid enw gweithredol yr AHNE i rhywbeth fyddai yn fwy bachog ac yn cynnwys y gair “cenedlaethol”.

3.4 Mae’r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE, a sefydlwyd i gynorthwyo’r AHNE yn y DU trwy hyrwyddo ymarfer da, addysg ac hyfforddiant, wedi bod yn rhan o’r drafodaethaeth am ddyfodol yr Parciau a’r AHNE yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Gymdeithas wedi bod yn cydgordio’r drafodaeth yn Lloger am newid yr enw gweithredol yr AHNE i “Dirweddau Cenedlaethol”.

3.5 Roedd y mwyafrif o ardaloedd yn Lloegr o blaid newid yr enw a bu i’r Gymdeithas hefyd gefnogi’r syniad. Yn dilyn hyn mae’r Gymdeithas wedi arwain ar ddatblygu pecynnau gwybodaeth, brandio a logos newydd i gyd-fynd gyda hyn. Bydd y Gymdeithas ei hun hefyd yn newid ei henw i Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol.

3.6 Mae trafodaeth ar y mater wedi bod ar y mater yng Nghymru. Yn gyffredinol mae cefnogaeth i’r bwriad ac mae’n ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol. Nid oes gorfodaeth i ddefnyddio’r teitl newydd, y brandio na’r logo sydd wedi ei ddatblygu fodd bynnag ac bydd yr enw swyddogol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn parhau.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.